DATGANIAD O DDIBEN

# CARTREF GOFAL DOLWAR

**Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd. LL53 7PA**
**01758740923 dolwargw@yahoo.co.uk**



# YNGHYLCH Y DARPARWR

| | |
|---|---|
| **Darparwr y gwasanaeth** | Cartref Gofal Dolwar Cyf. |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth** | Dolwar<br>Llanbedrog<br>Pwllheli<br>Gwynedd<br>LL53 7PA |
| **Endid cyfreithiol** | Cwmni cyfyngedig |
| **Unigolyn Cyfrifol** | Gwen Williams |
| **Rheolwr y gwasanaeth** | Ceri Ann Roberts |
| **Enw'r gwasanaeth** | Cartref Gofal Dolwar |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth** | Dolwar<br>Llanbedrog<br>Pwllheli<br>Gwynedd<br>LL53 7PA |

# DISGRIFIAD O LEOLIAD Y GWASANAETH

Saif cartref preswyl Dolwar yng nghanol pentref glan mor Llanbedrog, 3 milltir o dref Pwllheli.

Ceir Eglwys a 2 gapel yn y pentref a bydd y Ficer lleol yn galw yn y cartref yn achlysurol i sgwrsio a'r trigolion. Annogir y preswylwyr i fynychu gwasanethau'r Sul yn y capel dros y ffordd ac fe'u cydymeithir gan y gofalwyr. Law yn llaw a hyn bydd y gofalwyr yn cynnal gwasanaeth crefyddol a phrynhawn o ganu emynau traddodiadolyn y cartref ar rai Suliau, fel rhan o'n rhaglen weithgareddau.

Daw disgyblion Ysgol Llanbedrog atom i berfformio hyd at 3 gwaith y flwyddyn, y profiad bob amser yn bleserus ac yn fodd i godi calon.

Ag eithrio ar wyliau cyhoeddus, y mae trafnidiaeth cyhoeddus yn teithio trwy'r pentref yn bur rheolaidd. Gwasanaeth cyfyngedig wrth gwrs a gynnigir ar y Sul. Annogir y preswylwyr i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn lle bo modd er hybu eu hannibynniaeth. Yn ogystal, gellir gwneud trefniadau gyda'r gwasanaeth trafnidiaeth lleol O Ddrws i Ddrws,sy'n cynnig darpariaeth arbennigol ar gyfer unrhyw drigolyn sy'n dymuno ymweld a chyfleusterau yn yr ardal.

Ceir 2 dy tafarn lleol, Y Llong a Glyn Y Weddw, lle treulia'r trigolion ychydig amser yn ymlacio ar ambell i gyda'r nos braf neu'n gwledda dros wyl y Nadolig.

Y mae siop Spar bentref yn hynnod ddefnyddiol ar gyfer pwrcasu nwyddau allweddol a phapurau newydd i'r preswylwyr.

Pan gynhelir gweithgareddau yn ymwneud a Dementia a chyflyrau cyffelyb yn Oriel Glyn Y Weddw , gwahoddir ein preswylwyr yno i gymeryd rhan.

Y mae perthynas glos rhwng y cyngor lleol a'r cartref,ac yn ddiweddar rhoddwyd caniatad i Dolwar ddefnyddio'r neuadd bentref mewn amgylchiadau brys e.e. fel lloches mewn cyfyngder tan.

Ceir fferyllfa nid nepell o'r cartref a dwy feddygfa yn yr ardal -Treflan Pwllheli a Rhydbach Botwnnog.

# YR AMRYWIAETH O ANGHENION SYDD GAN YR UNIGOLION Y CAIFF Y GWASANAETH RHEOLEIDDIEDIG EI DDARPARU IDDYNT

Mae ffisiotherapydion a therapyddion galwedigaethol yn gweithio ym Mryn Beryl ar gyrion Pwllheli a byddant yn ymweld yn ol y galw.

Ni ddarperir gofal nyrsio yn y cartref ond y mae gennym berthynas waith dda gyda thim nyrsus cymunedol ardal Llyn sy’n galw heibio i ddelio ag unrhyw anghenion nyrsio os bydd angen.

Bydd Mr.Thomas o’r gwasanaeth podiatreg yn ymweld a’r cartref pob 3 mis neu ar gais.

Defnyddir gwasanaeth eiriolaeth lleol hefyd pe cyfyd yr angen.

Bydd Maria Thomas yr ymdrinydd gwallt yn galw bob yn ail Ddydd Llun.

Cofrestrir pob preswylydd gyda’r rhaglen gofal deintyddol “Gwen am byth” a bydd y deintydd yn galw yn achlysurol i asesu hylendid a chyflwr geneuol y preswylwyr ac i gynnig hyfforddiant a chyngor i’r staff ynglyn a gofal y gennau.

Bydd cwmni “Specsavers” yn galw o bryd i’w gilydd i brofi ac asesu golwg y preswylwyr.

| | |
|---|---|
| **Ystod oedran y bobl sy’n defnyddio y gwasanaeth** | 65 oed neu hŷn |
| **Rhywedd y bobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth** | Pob rhywedd |
| **Capasati mwyaf** | 17 |

# SUT Y DARPERIR Y GWASANAETH

Balch ydym o allu cynnig gwasanaeth gofal hynod broffesiynnol yn y cartref ar gyfer pobol hŷn dan Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016 yn dilyn canllawiau statudol Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Balch ydym o allu derbyn trigolion am arhosiad tymor hir, a byr dymor, gofal seibiant os oes ystafelloedd ar gael, yn ogystal a gofal dydd.

Trwy y gyfrwng y gofal a gynigir yng Nghartref preswyl Dolwar, rydym yn sicrhau fod ein trigolion a'u teuleuoedd yn ganolbwynt gofal sy'n sensitif i anghenion yr unigolyn. Y mae'n cwmpasu'r nodau canlynol:

- Preifatrwydd
- Urddas
- Annibyniaeth
- Dewis a Dymuniadau
- Hawliau
- Cyflawniad

**Preifatrwydd**

Rydym yn parchu'r holl wybodaeth am yr unigolion yn ein gofal, ac yn ei gadw'n gwbl gyfrinachol.

**Urddas**

Caiff pob unigolyn ei drin a'i drafod gyda pharch, a galluogir pob un o'n trigolion i gadw eu hurddas.

**Annibyniaeth**

Rydym yn hybu a galluogi unigolion i fentro'n ofalus a diogel, i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i feddwl a gweithredu drostynt eu hunain. Byddwn yn cynnig cymorth yn ôl y galw wrth gwrs.

**Dewis a Dymuniadau**

Rydym yn sicrhau fod gan yr unigolion yn ein gofal amrywiol opsiynnau yn eu bywydau pob dydd, a'u bod yn gallu dewis gweithgareddau yn ôl eu dymuniad a'u gallu eu hunain.

**Hawliau**

Gwarchodir pob un o hawliau dynol sylfaenol yr unigolion yn ei gofal, yn cynnwys caniatâd, cyfrinachedd, diogelwch, cydraddoldeb, ac annibyniaeth. Rydym yn annog rhyddid mynegiant.

**Cyflawniad**

Galluogir unigolion i wireddu eu nodau a dymuniadau eu hunain, gan greu cyfleoedd iddynt gyflawni eu hamcanion ym mhôb agwedd o fywyd pob dydd.

**Mynediad i'r Cartref**

Trefnir mynediad i'r cartref naill ai drwy gyfeiriadau gan Wasanaethau Cymdeithasol Gwynedd, drwy geisiadau preifat, neu drwy gyfeiriadau gan Nyrsus Cymunedol neu Feddyg Teulu.

Bydd y reolwraig yn cwbwlhau asesiad mynediad cyn-gartrefu gan weithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a'u hasesiad "Beth sy'n bwysig i mi". Gwneir cais pellach i'r feddygfa leol am hanes meddygol yr unigolyn. Gyda cheisiadau mynediad preifat, gall gwasanaethau cymdeithasol gymeryd rhan, ond os nad ydynt trafodir anghenion yr unigolyn gyda'r unigolyn eu hunain, eu perthynas agosaf, neu eiriolwr, er sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn y gofal perthnasol angenrheidiol.

Ar ol derbyn yr unigolyn i'r cartref am y tro cyntaf, bydd gwasanaethau cymdeithasol, y cartref a'r teulu yn cyfarfod i adolygu'r gofal a ddarparwyd ar gyfer yr unigolyn am y chwech wythnos ddiwethaf. Os yw pawb yn fodlon, yna bydd gwasanaethau cymdeithasol yn adolygu yn flynyddol, neu fel bo anghenion unigol yn newid.

Cynnwys hyn drafodaeth gyda'r trigolyn, eu perthynas agosaf neu eiriolwr i weld a oes unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud a allai wella pethau.

Mae gennym systemau monitro ansawdd o safon ar waith, i sicrhau fod pob gwasanaeth a gweithdrefn yn cael ei monitro'n agos a'u gwella'n barhaus. Canolbwyntia ar manylion lleiaf sy'n greiddiol i'n gwaith ni yma yng Nghartref Preswyl Dolwar. Elfen bwysig o'n rhaglen ansawdd yw cynnwys yr unigolyn a'u perthnasau yn y broses. Rhennir holiadur boddhad unigolion yn flwynyddol, i gasglu adborth i wella ein gwasanaeth.

Cynnigir gwasanaeth ddwy ieithog drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

# TREFNIADAU STAFFIO

Mae gan Gwen Williams, y person cyfrifol NVQ lefel 4 mewn rheolaeth, ac mae'n gweithio tuag at gwbwlhau hyfforddiant hanfodol, perthnasol ac arbennigol.

Mae Ceri Ann Roberts yn meddu ar gymhwyster RGN, RMA lefel 5 a chymhwyster Asesydd NVQ, ac mae'n gweithio tuag at gwbwlhau hyfforddiant hanfodol, perthnasol ac arbennigol.

Mae Wendi Wynn wedi cwbwlhau NVQ lefel 3, gyda'r golwg i gwbwlhau Lefel 5 mewn rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Mae gennym 3 Uwch Ofalydd gydag NVQ lefel 3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae hyfforddiant hanfodol ac arbennigol yn mynd yn ei flaen.

Mae yma 13 staff gofal, sydd wedi cwbwlhau eu NVQ lefel 2 /3 mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pob gofalydd wedi cofrestru hefo Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae gan y cogydd gymhwyster lefel 3 mewn Diogelwch Bwyd, ac mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi sgor o 5 i'r cartref am hylendid bwyd.

Bydd lefelau staffio ar ddiwrnod arferol fel a ganlyn:

Dydd 07.00 – 17.00: 1 Rheolwraig neu berson cyfrifol, 1 Uwch Ofalydd, 3 Gofalydd, 1 Cogydd, a 2 aelod o Staff Domestig.
Nosweithiau 17.00 – 22.00: 1 Uwch Ofalydd a 2 Ofalydd.
Nos 22.00 – 08.00: 2 Ofalydd
Bydd y person cyfrifol, y rheolwraig, neu'r is reolwraig ar alw bob nos.

Bydd aelod staff sydd wedi eu hyfforddi i weinyddu meddyginiaeth ar gael ar bob rota, yn ogystal ag aelod o staff sy'n meddu ar gymwhysterau perthnasol mewn Dementia, Parkinson's ac ymwybyddiaeth strôc.

Yn ystod y dydd, mae'r Rheolwraig yr is Reolwraig, a'r Unigolyn Cyfrifol ar gael os bydd argyfwng. Gyda'r nôs bydd o leiaf un Uwch Ofalydd ar gael i arolygu a chefnogi, yn ogystal a bod ar alwad i gynnig unrhyw gymorth angenrheidiol.

Mae holl staff yn cael eu goruchwylio a chefnogi fel bo yn briodol. Ceir sesiynau goruchwylio ac arwerthuso gyda'r staff er mwyn sicrhau fod y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau, ac er mwyn eu cefnogi i gyrraedd eu lawn botensial. Mae rhain yn gyfle hefyd i roi adborth i staff.

HYFFORDDIANT
Defnyddir amryw o wahanol ddarperiaethau er mwyn hyfforddi staff megis Cyngor Gwynedd, SocialCareTv, Ethical work force solutions a Mon Fire.

Bydd y staff yn gorfod mynychu hyfforddiant gorfodol, yn ogystal a hyfforddiant arbennigol neu o ddiddordeb.

Dyma beth or hyfforddiant disgwylir i'r staff fod wedi ei gwbwlhau

- Cymorth cyntaf yn y gwaith
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelwch Tân
- Symyd a Thrin
- Amddiffyn
- Galluedd Meddyliol ac Amddifadu Rhyddid
- Diogelwch Bwyd
- Dementia
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- Rheoli Haint
- Meddyginiaeth
- Ymwybyddiaeth Strôc
- Ymwybyddiaeth Parkinson's
- Ymwybyddiaeth Arthritis
- Clefyd Siwgwr
- Sepsis
- Cadw Cofnodion
- Diwedd Oes
- Dysphagia
- Gofal Stoma a Catheter
- Gofal croen

Yn ogystal a hyfforddiant, bydd y staff yn cael eu gwahodd i amryw o weminarau a gynnigir gan Bwrdd Ichyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Tim gofal llinarol, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU

Mae'r cartref wedi ei gofrestru ar gyfer 17 o drigolion, gyda chynllun fel a ganlyn:

**Llawr Isaf**

- 4 Ystafell wely en-suite sengl
- Ystafell gawod
- 2 Toiled trigolion
- Ardal dawel (Cymunedol)
- Lolfa haul / Ystafell fwyta (Cymunedol)
- 2 Lolfa

**Llawr 1af**

- 4 Ystafell wely en-suite
- 3 Ystafell wely sengl
- 1 Ystafell wely ddwbl
- Ardal dawel (Cymunedol)
- Ystafell gawod

**2il Lawr**

- 4 Ystafell wely sengl
- 1 Toiled

**Y tu allan**

- Ardal eistedd gymunedol (mynediad drwy ramp). Defnyddir yr ardal hon fel ardal gweithgareddau ar gyfer garddio blychau, bwydo bywyd gwyllt a gweithgareddau eraill yn ddibynol ar y tywydd. Mae hefyd ardal patio yn y cefn, lle gweinir de prynhawn yn yr haf.

Mae'r defnydd o deledu cylch cyfyng mewn lle yn ardaloedd tu allan i adeilad Dolwar, yn ogystal ar coridorau er mwyn diogelu preswylwyr a staff.

# TREFNIADAU LLYWODRAETHU A MONITRO ANSAWDD

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arolygu gan nifer o gyrff allanol yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru, Cyngor Gwynedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hefyd nifer o fesuriadau mewnol mewn lle er mwyn llywodraethu a monitro ansawdd. Rydym yn annog diwylliant teg a chynhwysol, ble caiff hawliau'r unigolyn eu parchu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn adeilad Dolwar amryw o weithiau yr wythnos, a bydd yn cyfarfod yn ffurfiol hefo'r rheolwr pob tri mis i drafod sicrwydd ansawdd.

Cynhelir gyfarfodydd gyda'r preswylwr a staff er mwyn rhannu gwybodaeth a derbyn adborth.

Bydd holiaduron sicrwydd ansawdd yn cael eu rhannu i breswylwyr, teulu & ffrindiau a gweithwyr proffesiynnol a fydd yn ymweld a Dolwar. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael eu dadansoddi a gwelliannau / newidiadau yn cael eu gwneud fel bo yn briodol.

Bydd y rheolwr yn cynnal nifer o archwyliadau mewnol yn wythnosol / fisol i fonitro ansawdd megis rheoli haint, meddigyniaeth, glanhau ac yn y blaen.

Ceir hysbysfwrdd yn y cyntedd ble mae gwybodaeth am weithgareddau a gynhelir. Mae hefyd hysbysfwrdd ar gyfer y staff i rannu gwybodaeth am hyfforddiant ac unrhy wybodaeth perthnasol arall.

YMDRIN A CHWYNION
Os bydd unigolyn, perthynas neu ymwelydd yn teimlo fod achos i gwyno, mae Gweithdrefn Gwynion wedi ei sefydlu i alluogi i hyn gael ei weithredu. Yn gyntaf, dylid trafod unrhyw broblemau neu gwynion gyda'r Rheolydd neu'r Person Cyfrifol. Os bydd yr achwynydd yn dal yn anfodlon, yna gellir cofnodi'r gwyn ar Ffurflen Gwynion, sydd ar gael o swyddfa'r Rheolydd. Bydd ymchwiliad llawn yn cael ei weithredu, a bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu am y canlyniad o fewn 28 diwrnod i'r diwrnod y cafodd y gwyn gychwynnol ei gwneud.